O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 481 (Cy. 50)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill i gyhoeddi cynllun (sy'n cael ei alw'n "gynllun gwella" yn y Gorchymyn hwn) ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) o'r Mesur ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i gynllun gwella awdurdod tân ac achub ar gyfer blwyddyn ariannol gael ei gyhoeddi.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub, Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful CF48 1UZ (ffôn 01685 729221).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 481 (Cy. 50)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010

Gwnaed	*24 Chwefror 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*1 Mawrth 2010*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 15(7), 50(1) a (3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill;

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun perfformiad o fewn ystyr adran 15(6) o'r Mesur; ac

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

(3) Dim ond i awdurdodau gwella Cymreig sy'n awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, wedi'u cyfansoddi gan gynllun o dan adran 2 o'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**2**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

(**1**) 2009 mccc.2.
(**2**) 2004 p.2.

Y dyddiad ar gyfer cyhoeddi cynllun gwella

2. Rhaid i awdurdodau gwella Cymreig gyhoeddi eu cynllun gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 30 Medi yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun gwella yn berthnasol iddi.

Carl Sargeant

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

24 Chwefror 2010